Dyma englyn Philip Jonathan i'r shed adeiladodd Arwel
yn ystod y cyfnod clo:

Caer meitin yn yr hindda – gwiriondeb
Gwerindod gorffwysfa,
Lle bo loes rhag erchyll bla
Caer annwn Tŵr Corona!

**Arwel Emlyn**

Dyma ymateb Arwel i'r grisiau garddwrol, adeiladwyd
gan Philip Jonathan yn ystod y cyfnod clo:

**Grisiau y garddwr oesol**

Ar y "Steppe" mae gŵr a'i stâd - a chynnyrch
Ei hunan gynhaliad,
Grisiau oes yw ei grwsâd
Grisiau llawnder goroesiad.

Yna ar ôl i Hippopotamus ymddangos yng ngardd Arwel
Ymddangosodd englyn gan Philip:

Creu Sŵ mae'r bardd nid garddio – yn effro
Mae criw'r Affrig yno,
Hynod hwyl yw dweud helo
Yn encil epil Hippo!

Ymateb Arwel wedyn yn cael ei adael ar y “grisiau”:

Philip, cyfarchiad hippo – a welais
Yng nghorneli’r garddio,
Blas Sŵ a phridd oedd iddo,
Englyn gwych ynglyn ac o.



Philip yn ateb yn ôl wedyn ar wyneb yr hippo!

**Ceffyl y Dŵr**

Aur achau'r carped trwchus – nwyd actau
Iôn y dyctêp mentrus,
Gwlaw haf, cornel braf o'r brys
A gadwo'n Hippo'n hapus!

Teyrnged i dyfiant grisiau Philip Jonathan wedyn:

**Vintage**

Gris wrth ris mae gardd i'w thrin – yn codi
Dan y coed cynefin,
Mae garddwr glew fel dewin
A honno'n ardd fel hen win.

Wedyn pan ddaeth Panda i'r golwg yng ngardd Arwel!
Dyma foliant Philip Jonathan!

**SIONG MÂW**

Yn y man delwedd Panda – du a gwyn
Daw a gwên reit smala,
Hynod un mewn cwmni da
Yn heddwch Eden Adda.

